## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

**338 - Beirniadaeth Rhyddiaith Bl. 3 a 4**
**Beirniad: Llinos Mary Jones**

Cefais y fraint o deithio ar draws ac ar led y byd ar fwrdd hanner cant o garpedi hud! Dyna i chi brofiad a'm cyfareddodd!

Rhaid canmol a chymeradwyo ymdrech pob un o'r cystadleuwyr a fu'n brysur yn creu storiau difyr a diddorol, a diolch iddynt oll am gystadlu.

Erbyn yr oedran yma, mae rhywun yn chwilio am atalnodi a chystrawennu cywir yn yr ysgrifennu, ac yng ngwaith y goreuon yn y gystadleuaeth, roedd hynny'n amlwg, ynghyd â defnydd pwrpasol o ffurf gryno'r ferf. Yng ngwaith y cystadleuwyr hynny, roedd ymgais wirioneddol dda i amrywio'r brawddegau'n synhwyrol, gan wneud defnydd effeithiol o ddeialog, fu'n fodd i symud y storiau yn eu blaen yn esmwyth. Cafwyd geirfa gywir a chyfoethog yng ngwaith mwyafrif y cystadleuwyr.

Gwelwyd ôl cynllunio a pharatoi manwl cyn mynd ati i ysgrifennu, a gwnaed defnydd priodol o gymariaethau ac idiomau cyfoethog, oedd wedi'u bwydo i'r disgyblion ymlaen llaw. Roedd tuedd ar brydiau i ddod â'r rheini i mewn yn ddi—angen, am nad oeddynt bob tro, yn talu am eu lle.

Roeddwn yn dotio at ddychymyg byw a chreadigrwydd llawer o'r cystadleuwyr, a llwyddwyd, gan amlaf, i gyfleu syniadau gwreiddiol ac apelgar wrth ymdrin â'r testun hwn.

Bum yn ail ddarllen nifer o'r storiau ddaeth i law, droeon, a bu cryn grafu pen cyn dod i'r penderfyniad terfynol, gan fod nifer sylweddol o'r storiau yn cyrraedd safon dda. Dylwn grybwyll enwau rhai cystadleuwyr oedd â llawer o nodweddion da iawn yn perthyn i'w storiau, sef Ifan Bonner Evans, Macsen Mainwaring, Ioan Perry, Bronwen Jenkins, Ffion James a Loti Roberts – mi ddaethoch chithe'n agos iawn i'r brig.

Mae'r drydedd wobr yn mynd i Sara-Manon Hughes Ahmed am gynnal stori mewn iaith raenus, a hynny am lun draig oedd ar y carped a ddaeth yn fyw, wrth deithio i Asia ac Affrica.

# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

Mae'r ail wobr yn mynd i Caleb Jones am stori anturus oedd wedi'i saernio'n ofalus gan gynnal ein diddordeb o'r dechrau i'r diwedd, gyda'r tri chymeriad yn cael sawl antur gofiadwy ar y daith.
Fe apeliodd y stori sy'n dod yn gyntaf, sef yr un gan Hanna Treharne, ataf o'r darlleniad cyntaf un. Mae hon yn stori aeddfed, llawn dychymyg sydd wedi mynd ar drywydd cwbl wahanol i'r gweddill, ac oherwydd y newydd-deb hwnnw, mae'n llawn deilyngu'r wobr gyntaf.

1af - Hanna Treharne
2il - Caleb Jones
3ydd - Sara-Manon Hughes Ahmed